**Cyf: EUR-03-01(min)**

**Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd**

**COFNODION**

**Dyddiad:** 23 Mai 2001

**Amser:** 9.30am

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presennol:** **Aelodau**

| | |
|---|---|
| Rhodri Morgan (Cadeirydd) | Llafur: Gorllewin Caerdydd |
| Nicholas Bourne | Ceidwadwr: Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Rosemary Butler | Llafur: Gorllewin Casnewydd |
| Christine Chapman | Llafur: Cwm Cynon |
| Mike German | Democrat Rhyddfrydol: Dwyrain De Cymru |
| John Griffiths | Llafur: Dwyrain Casnewydd |
| Jonathan Morgan | Ceidwadwr: Canol De Cymru |
| Rhodri Glyn Thomas | Plaid Cymru: Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| Phil Williams | Plaid Cymru: Dwyrain De Cymru |

**Gwahoddedigion Sefydlog**

| | |
|---|---|
| Catherine Eva | Pennaeth Cynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru |
| Jill Evans | Aelod o Senedd Ewrop |
| Jos Gallagher | Cyfarwyddwr, Canolfan Ewropeaidd Cymru |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Jackie Brown | Pennaeth yr Uned, Rhaglenni Ewropeaidd |
| Des Clifford | Swyddfa’r Cynulliad ym Mrwsel |
| Gary Davies | Pennaeth, Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol |
| Elisabeth Jones | Uwch Gwnsler y Cynulliad, Tîm y Cyfansoddiad, Hawliau Dynol ac Ewropeaidd |

| | |
|---|---|
| Russell Keith | Clerc y Pwyllgor |
| Phil Mulraney | Dirprwy Glerc y Pwyllgor Dros Dro |

**Eitem 1 ar yr Agenda: Adroddiad y Cadeirydd**
**Papur EUR-01-01(p1)**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Aelodau'r Cynulliad, Ieuan Wyn Jones a Val Feld, Dr Rose D'Sa, George Wright, y Cynghorydd Jon Huish a'r ASEau Cymreig Jonathan Evans, Eurig Wyn, Glenys Kinnock ac Eluned Morgan.

1.2 Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad ysgrifenedig:

- Estynnodd y Cadeirydd longyfarchiadau i Gynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru ar ei ben blwydd yn 25 ar 9 Mai a dywedodd iddo fynychu'r dathliadau.
- Bu nifer o uwch wleidyddion Ewropeaidd a Llysgenhadon ar ymweliad ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor:
  ► Ymwelodd Jordi Pujol, Llywydd Catalonia, â Chymru ar y 6ed a 7fed o Ebrill, a llofnododd Brotocol Cydweithredu newydd rhwng Cymru a Chatalonia.
  ► Ymwelodd Ei Ardderchogrwydd Dr Bergquist, Llysgennad Sweden, â'r Cynulliad ar 26 Ebrill.
  ► Ymwelodd Llysgennad yr Iseldiroedd, Ei Arddechogrwydd y Barwn Vendinck-van-Schoonhaten, â'r Cynulliad ar 17 Mai i drafod materion yn dilyn datganoli. Roedd ei ymweliad yn cynnwys cyfarfodydd gyda'r Cadeirydd, Edwina Hart, Jane Davidson a'r Llywydd. Yn ogystal, cynhaliwyd cyfarfodydd ar wahân gyda Nick Bourne, Mike German ac Ieuan Wyn Jones.
- Cynllunnir ymweliad ar gyfer Llysgennad Gwlad Pwyl, Ei Arddechogrwydd Stanislaw Komorowski, ar 1 Mehefin. Bydd hyn yn cyd-fynd â chynhadledd o dan y teitl 'Yr Eryr Gwyn a'r Ddraig Goch – Gwlad Pwyl a Chymru: Partneriaid mewn UE mwy', pan fydd Prif Weinidog Cymru yn rhoi anerchiad.
- Bydd ymweliad Llysgennad Gwlad Belg, Ei Arddechogrwydd Lode Willems, a fydd yn mynychu cyfarfod nesaf y pwyllgor er mwyn trafod y blaenoriaethau ar gyfer Llywyddiaeth Gwlad Belg ar yr Undeb Ewropeaidd cyn bo hir, yn bwysig iawn.

1.3 Cynhaliodd y Comisiwn Ewropeaidd ail Fforwm ar Gydlyniant Economaidd a Chymdeithasol ar 21ain a 22ain Mai. Mynychodd Mike German, Phil Williams a Christine Gwyther ar ran y Cynulliad. Cwmpasodd y drafodaeth y cyfleoedd a fydd yn codi wrth ehangu'r Undeb Ewropeaidd a'r bygythiadau posibl. Er i'r drafodaeth gwmpasu amrywiaeth eang o faterion, roedd effaith yr ehangu ar weithrediad y Cronfeydd Strwythurol yn bwysig iawn i Gymru. Roedd angen egluro a chlywed y safbwynt Cymreig ar y materion hyn. Cyflwynodd Mike

German bapur byr ar ganlyniad y Fforwm.  Codwyd y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

- Roedd angen sefydlu cysylltiadau strategol da gyda'r haenau llywodraeth rhanbarthol presennol yn Ewrop a chyda'r gwledydd hynny sy'n ymgeiswyr i ymuno â'r Undeb Ewropeaidd, yn arbennig y cenhedloedd llai hynny y gallai Cymru rannu diddordebau cyffredin â hwy.
- Mewn Undeb Ewropeaidd mwy bydd gweithredu'r egwyddor o ddatganoliaeth yn bwysicach.
- Efallai y bydd yn rhaid adolygu terfyn presennol o 4% o CMC ar dderbyniadau cronfeydd strwythurol, yn ogystal â lefel cyfraniad y gwledydd sydd ychydig yn fwy ffyniannus.  Ni chafwyd trafodaeth fanwl ynglŷn â hyn yn y Fforwm ond codwyd y posibilrwydd o ddychwelyd cronfeydd strwythurol.
- Gallai mesurau a diffiniadau gwahanol gael eu defnyddio ar gyfer dosbarthu cronfeydd strwythurol.  A fyddai buddiannau Cymru yn cael eu diogelu'n well drwy osod mwy o bwyslais ar fesurau thematig neu diriogaethol amddifadedd?  Mae'n bwysig sicrhau bod unrhyw ddiffiniadau newydd yn ystyried dosbarthiad poblogaeth a thopograffi Cymru.
- Ni chwmpaswyd diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a goblygiadau arian sengl yn benodol gan y Fforwm Cydlyniant Ewropeaidd ond cawsant eu hystyried gan y Pwyllgor fel rhai o arwyddocâd sylweddol ar gyfer yr agenda cydlyniant.
- Roedd cydlyniant economaidd yr aelod-wladwriaethau presennol wedi gwella.  Mae gwladwriaethau tlawd Môr y Canoldir, a Gweriniaeth Iwerddon yn arbennig, wedi ennill tir o ran y cyfartaledd Ewropeaidd. Cafwyd rhywfaint o drafodaeth ynglŷn â'r graddau y gellid tadogi hyn i'r rhaglenni cronfeydd strwythurol, neu a oedd yn ganlyniad ffactorau economaidd eraill.
- Roedd anghyfartaledd o ran cyfoeth o fewn y rhan fwyaf o'r aelod-wladwriaethau wedi tyfu'n sylweddol, a chyfeiriwyd at y ffaith fod y Deyrnas Unedig bellach ar 33% ar y raddfa anghyfartaledd, o'i gymharu â chyfartaledd yr Undeb Ewropeaidd o 11%.  Bellach, y DU sydd â'r anghyfartaledd mwyaf o CMC y pen o blith holl aelodau'r Undeb Ewropeaidd.
- Tybiwyd bod rôl yr Awdurdodau Lleol a chyrff cyhoeddus wrth lunio'r 'ongl Gymreig' ar y materion hyn o bwysigrwydd mawr.  Roeddent wedi cael llawer o brofiad wrth ddefnyddio'r mecanweithiau ariannu Ewropeaidd.
- Mae Canolfan Ewropeaidd Cymru, ynghyd â Dinas a Sir Abertawe, yn trefnu cyfarfod adborth ar y fforwm i'w gynnal ar ddechrau mis Mehefin.

1.4  Rhoddodd y Pwyllgor sêl bendith ar y cynnig i sefydlu gweithgor yn cynnwys swyddogion y Cynulliad, a chynrychiolwyr partneriaid y Cynulliad mewn llywodraeth leol, sectorau gwirfoddol a busnes, er mwyn ystyried ymateb y Cynulliad i faterion yn deillio o'r ehangiad Ewropeaidd a chydlyniant.  Cytunwyd y

byddai swyddogion yn cyflwyno Cylch Gorchwyl drafft ar gyfer y grŵp hwn yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 28 Mehefin.

1.5 Ymunodd swyddogion o'r Cynulliad a Chanolfan Ewropeaidd Cymru â thaith gefeillio i Wlad Pwyl a Hwngari rhwng 23ain a 25ain Ebrill er mwyn ymgymryd ag astudiaeth gwmpasu cyfleoedd gefeillio posibl. Tra cydnabuwyd y byddai cymryd rhan mewn prosiectau gefeillio yn rhan o strategaeth ehangu Cymru gyfan sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd, byddai'n rhaid archwilio'r goblygiadau ar gyfer adnoddau.

1.6 Cwestiynwyd a fyddai'n well dethol ardaloedd sy'n rhannu anawsterau cyffredin fel partneriaid gefeillio, er enghraifft, rhanbarthau yng Ngwlad Pwyl gyda diwydiant glo sy'n dirywio, neu roi blaenoriaeth i'r gwaith o ddatblygu cysylltiadau masnachol gydag ardaloedd mwy llewyrchus. Bydd y swyddogion yn dosbarthu papur gwybodaeth am y rhaglen gefeillio.

**Eitem 2 ar yr Agenda: Gweithgareddau'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd yn y Dyfodol**
**Papurau: EUR-03-01(p2)**

2.1 Cyflwynodd y Cadeirydd y papur, a oedd yn amlinellu camau gweithredu o ganlyniad i gynigion a drafodwyd yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor a gofynnwyd i'r aelodau ddynodi materion strategol y dymunant i'r Pwyllgor eu hystyried a mynd i'r afael â hwy. Codwyd y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

- Mae'n bwysig i'r Pwyllgor gael ei hysbysu ynghylch gwaith y Comisiwn Ewropeaidd. Gosododd adroddiad Canolfan Ewropeaidd Cymru yn y cyfarfod diwethaf batrwm ar gyfer cyflwyniad clir ac uniongyrchol y byddai'n ddefnyddiol i eraill ei ddilyn.
- Pwysleisiwyd pa mor bwysig ydyw bod y Pwyllgor yn cynnal perthynas gref a chyswllt rheolaidd gydag ASEau Cymru. Efallai na fydd y cynnig i gynnal o leiaf un cyfarfod y flwyddyn ym Mrwsel yn ddigonol. Gallai Swyddfa'r Cynulliad ym Mrwsel chwarae rôl hanfodol wrth alluogi ASEau i adrodd yn ôl ynghylch materion a gweithgareddau i'r Pwyllgor. Efallai y bydd hwn yn ddull mwy effeithiol o fynd ati. Byddai gwell defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chynadledda fideo hefyd yn caniatáu i ASEau chwarae mwy o ran yng ngwaith y Pwyllgor.
- Cytunodd Des Clifford i hwyluso adroddiad ysgrifenedig ar weithgareddau ASEau Cymru ar gyfer pob cyfarfod pwyllgor.
- Dylid trefnu cyfarfodydd y Pwyllgor er mwyn osgoi gwrthdaro ag ymrwymiadau hysbys yr holl wahoddedigion sefydlog, er enghraifft roedd y cyfarfod diwethaf wedi gwrthdaro â chyfarfod llawn Pwyllgor y Rhanbarthau.

2.2 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynigion yn y papur ar yr amodau canlynol:

- Cadarnhawyd er mwyn sicrhau'r system o rapporteurs, y dylid newid aelodaeth y Pwyllgor Ewropeaidd, a'i ehangu os oes angen, yn hytrach na'r pwyllgorau pwnc.
- Mae'n bosibl na fydd modd gwahodd Cadeirydd pob pwyllgor pwnc i fynychu'r Pwyllgor Ewropeaidd unwaith y flwyddyn er mwyn trafod cydlyniad materion Ewropeaidd yn sgîl cyfyngiadau ar amser pwyllgorau. Hwyrach y byddai system o rapporteurs yn amlygu'r angen am hyn. Fodd bynnag, pe bai'r pwyllgorau'n cydweithredu mewn dull effeithiol, byddai'n fuddiol i'r cadeiryddion fynychu.

2.3 O ran materion strategol roedd y Pwyllgor yn dymuno cynnwys datblygu cynaliadwy ymhlith ei ystyriaethau yn y dyfodol gan ei fod yn ymwneud â'r cyd-destun Ewropeaidd ac fe'i ystyriwyd yn bwnc addas.

**Eitem 3 ar yr Agenda: Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Materion Ewropeaidd**
**Papur: EUR-03-01(p3)**

3.1 Cyflwynodd y Cadeirydd yr adroddiad, a gyflwynir i'r Cyfarfod Llawn ar 26 Mehefin fel rhan o ddadl ar faterion sy'n gysylltiedig â'r Undeb Ewropeaidd.

3.2 Codwyd y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

- Roedd angen mwy o eglurder gyda'r derminoleg a ddefnyddir yn amrywio o 'Cenedl-Wladwriaeth', 'Aelod-Wladwriaeth', 'Haen Ranbarthol' ac ati. Awgrymwyd y dylai Cymru ddisgrifio'i hun fel 'Rhanbarth Cenedlaethol' o fewn yr Undeb Ewropeaidd. Trafododd y Cadeirydd y mater hwn gyda Jordi Pujol yn ystod ei ymweliad. Mae Cymru'n gweithredu ar yr 'haen ranbarthol' o fewn Ewrop, ond mae'n ystyried ei hun fel cenedl fach o fewn aelod-wladwriaeth fawr. Byddai'r swyddogion yn ymgymryd â'r dasg o ganfod geiriad boddhaol.
- Lluniodd Rose D'Sa bapur yn ddiweddar ar oblygiadau'r Siarter Ewropeaidd ar Hawliau Sylfaenol. Cytunodd Catherine Eva ei gyfeirio i'r Ysgrifenyddiaeth er mwyn ei ddosbarthu i aelodau'r pwyllgor.
- Dywedodd Elisabeth Jones fod y Llys Cyfiawnder Ewropeaidd wedi defnyddio'r Siarter mewn dyfarniad diweddar, gan ychwanegu at ei statws.

3.3 Mabwysiadodd y Pwyllgor yr Adroddiad.

**Eitem 4 ar yr Agenda: Llywodraethedd**
**Papur: EUR-03-01(p4)**

4.1 Cyflwynodd Des Clifford y papur, a oedd yn amlinellu rhai o'r materion a godwyd gan adolygiad llywodraethedd yr Undeb Ewropeaidd a roddwyd ar waith gan Romano Prodi, Llywydd y Comisiwn Ewropeaidd. Hyd yma, ni chafwyd ffocws amlwg i'r drafodaeth. Yn isorweddol iddo, fodd bynnag, roedd yr

ymdeimlad bod angen i'r Comisiwn ailfywiogi ei berthynas gyda'i bartneriaid – yn llywodraethau, rhanbarthau, sefydliadau anllywodraethol, y gymdeithas sifil neu'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae'r rhagolygon ar gyfer ehangu hefyd yn herio'r ffyrdd traddodiadol o ymdrin â busnes. Roedd teimlad cyffredinol nad oedd y system bresennol, nad oedd wedi newid rhyw lawer ers y cyfnod pan oedd dim ond chwe Aelod-Wladwriaeth, yn gynaliadwy. Profodd uwchgynhadledd Nice hynny. Disgwylir Papur Gwyn, o dan y teitl 'Gwella Democratiaeth yn yr Undeb Ewropeaidd' ym mis Gorffennaf, a byddai ymweliad Llysgennad Gwlad Belg ym mis Mehefin yn gyfle da i drafod cyfeiriad tebygol hynny gydag ef.

4.2 Mae'r ddadl ehangach ynghylch 'Dyfodol Ewrop' yn cyd-fynd â'r prosiect Llywodraethedd ond roedd yn brosiect mwy eang a hirdymor a fyddai'n mynd i'r afael â materion yn arwain at y Gynhadledd Rhyng-Lywodraethol nesaf yn 2004. Gallai hynny olygu newidiadau i'r Cytundeb lle bo hynny'n angenrheidiol a phan fo modd sicrhau cytundeb. Mae'n debygol y bydd cysylltiadau cryf rhwng y dadleuon hyn sydd ar wahân ond sydd hefyd yn amlwg yn gysylltiedig.

4.3 Codwyd y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

- Mae'r ddadl hon yn gyfle da i'r Cynulliad gymryd rhan yn y gwaith o egluro'r materion y mae Llywodraethedd Ewropeaidd yn eu codi ar gyfer pobl Cymru. Roedd angen i bobl deimlo eu bod yn chwarae mwy o ran mewn materion Ewropeaidd a datblygu dealltwriaeth ehangach yn eu cylch. Mae'r dryswch ynghylch Amcan 1 a'r gyfran isel o etholwyr mewn etholiadau Ewropeaidd yn arwydd o fethiant y sefydliadau Ewropeaidd i gysylltu â'r cyhoedd.
- Mae'n bosibl y gallai rhyw fath o Gytundeb gael ei sefydlu yng Nghymru er mwyn edrych ar y modd y mae sefydliadau Ewropeaidd amrywiol yn cysylltu â'i gilydd a chyda phobl Ewrop, ac i edrych ar feysydd y mae diffyg posibl yn y broses ddemocrataidd. Byddai hyn yn galluogi i bobl Cymru gyfrannu'n wirioneddol i'r ddadl.
- Ar hyn o bryd rôl fach sydd gan Bwyllgor y Rhanbarthau yn y gweithdrefnau hyn. Prin yw'r wybodaeth a gyfnewidir gyda Senedd Ewrop.
- Bu ychydig o drafodaeth ynghylch a yw'r Cynulliad ar hyn o bryd yn gwneud defnydd llawn o'i holl gyfleoedd i ddylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau yn Ewrop, a rôl gymharol y Pwyllgor Ewropeaidd, Cabinet y Cynulliad a Llywodraeth y DU yn ymwneud â hynny.
- Mae rôl y Cynulliad wrth ddehongli a gweithredu rheolau Ewropeaidd yn golygu bod ganddo gyfraniad gwerthfawr i'w wneud yn y ddadl.

4.4 Dywedodd y Cadeirydd y gallai'r pwyntiau a godwyd ffurfio rhan o drafodaethau'r Pwyllgor gyda Llysgennad Gwlad Belg ym mis Mehefin.

**Eitem 5 ar yr Agenda: Fforwm Ewropeaidd Cymru**
**Papur: EUR-03-01(p5)**

5.1  Cyflwynodd Gary Davies y papur a oedd yn amlinellu'r opsiynau ar gyfer dyfodol y Fforwm.  Cynhaliwyd dau gyfarfod llwyddiannus gyda phresenoldeb uchel ym mis Hydref 1999 a mis Mai 2000.  Ers hynny, fodd bynnag, ni chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd dilynol, yn bennaf o ganlyniad i'r methiant i sicrhau siaradwyr cymwys.  Gwahoddwyd safbwyntiau'r pwyllgor ar yr opsiynau a gyflwynwyd.

5.2  Codwyd y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

- Roedd gan y Fforwm rôl bwysig i'w chwarae wrth gynorthwyo i sefydlu dadl ddeallus ac amhleidiol ynglŷn â materion Ewropeaidd.  Prin yw'r hyn a wna'r cyfryngau yn y DU i ddarparu gwybodaeth i bobl ar Ewrop.
- Hefyd mae'n darparu ffocws defnyddiol ar gyfer cynrychiolwyr y sector busnes, y sector gwirfoddol a'r sector cyhoeddus i drafod materion sy'n deillio o ddatblygiadau yn y Gymuned Ewropeaidd megis ehangu.
- Ystyriwyd ei fod yn bwysig i'r Fforwm ddarparu mecanwaith ar gyfer dylanwadu ar ganlyniadau polisi.

5.3  Cytunodd y Pwyllgor mai opsiwn 4 fel y'i cyflwynwyd (yn cyfuno opsiynau 1 a 2 yn y papur, ond nid opsiwn 3) oedd y gorau ar gyfer y dyfodol, gan gyfuno'r cynulliadau mawr o bobl ar ddull 'cynhadledd' a'r cyfarfodydd llai, yn canolbwyntio'n fwy ar faterion a diddordebau penodol.

**Eitem 6 ar yr Agenda: Cynhadledd y Rhanbarthau Ymylol a Morwrol a Chynulliad y Rhanbarthau Ewropeaidd**
**Papur: EUR-003-01(p6)**

6.1  Cyflwynodd Des Clifford y papur, gan gyfeirio at y cyflwyniadau a wnaed mewn cyfarfodydd blaenorol ar waith y ddau sefydliad.  Ni fyddai ymuno â'r sefydliadau hyn yn syth yn ddefnydd cost effeithiol o adnoddau'r Cynulliad.  Fodd bynnag, ystyriwyd mai cam mwy pwyllog fyddai ymuno ag un ohonynt, a defnyddio'r profiad i werthuso manteision ymarferol rhwydweithio Ewropeaidd o'r fath.

6.2  Ar y sail honno, teimlwyd bod Cynhadledd y Rhanbarthau Ymylol a Morwrol (CPMR) yn darparu cyfleoedd gwell i Gymru chwarae rôl ystyrlon ar unwaith.  Ar hyn o bryd, yn ôl pob golwg, dyma oedd yr un a drefnwyd orau ac a oedd yn meddu ar y ffocws polisi cliriaf.

6.3  Codwyd y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

- Mae diffyg eglurder ynghylch aelodaeth y Cynulliad o'r cyrff cynrychioladol amrywiol yn Ewrop (a Llywodraeth Leol), er enghraifft y Gyngres Awdurdodau Rhanbarthol Lleol.  Mae Alun Lloyd o Ddinas a Sir Abertawe yn aelod llawn o Siambr yr Awdurdod Lleol, tra bod Tom Middlehurst yn

aelod am yn ail o'r Siambr Ranbarthol. Cytunwyd y byddai'r swyddogion yn llunio nodyn ar gyfer y cyfarfod nesaf yn pennu cynrychiolaeth Cymru ar gyrff amrywiol.

- Ni ddiystyrwyd aelodaeth o Gynulliad y Rhanbarthau Ewropeaidd yn sgîl y ffaith fod y Cynulliad yn penderfynu ymuno â CPMR.

6.4 Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r Cynulliad wneud cais am aelodaeth o'r CMPR cyn gynted â phosibl gyda'r bwriad o gael ei gyflwyno fel aelod newydd yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhelir yn Oporto ar 20/21 Medi 2001.

**Eitem 7 ar yr Agenda: Adroddiadau gan Wahoddedigion Sefydlog**

7.1 Adroddodd Jill Evans yn ôl mai'r ddadl ynghylch 'Dyfodol Ewrop', ynghyd â'r Siarter ar Hawliau Sylfaenol, yw'r prif fater sy'n wynebu Senedd Ewrop ar hyn o bryd. Bydd pwnc datblygu cynaliadwy, a gysylltwyd â'r adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar yr amgylchedd, yn ganolog i waith y Senedd dros yr ychydig fisoedd nesaf. Yr wythnos diwethaf yn ogystal cyhoeddodd y Comisiwn gynigion ynghylch ymgynghori â gweithwyr a'u hysbysu. Canlyniad hyn fydd cyflwyno deddfwriaeth a ddylai gynorthwyo i gadw swyddi ar draws Ewrop. Roedd hyn yn arbennig o bwysig o gofio'r digwyddiadau diweddar yn ymwneud â Corus a cholli swyddi ar draws Ewrop.

7.2 Dywedodd Catherine Eva y byddai'r adolygiad parhaus o'r Polisi Amaethyddiaeth Cyffredin o arwyddocâd mawr ar gyfer Cymru. Adroddodd yn ôl bod samplau o bapurau ac arian bath yr Ewro bellach yn cael eu cyhoeddi i sefydliadau sy'n cynrychioli pobl gyda diffyg synhwyraidd i'w treialu. Hefyd hysbysodd y pwyllgor fod Cynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru yn gobeithio symud i swyddfa newydd yn Caspian Point cyn y Nadolig. Gobeithiwyd y byddai Romano Prodi yn gallu ei agor yn swyddogol yn y Flwyddyn Newydd. I gloi, bydd y Rhwydwaith Gwybodaeth Ewropeaidd yng Nghymru yn cynnal ei Gynhadledd Flynyddol yn yr Hydref. Mynegodd obaith y byddai Aelodau'r Cynulliad yn cymryd rhan.

7.3 Adroddodd John Griffiths yn ôl fod dau gyfarfod llawn o Bwyllgor y Rhanbarthau wedi'u cynnal ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Ewropeaidd. Gwnaed cyflwyniad ar y safle newydd ar y Rhyngrwyd a fyddai, gobeithio, yn hwyluso'r dasg o gael gafael ar wybodaeth am Ewrop. Rhoddodd Michel Barnier gyflwyniad ar ehangu a chydlyniant a'r modd y maent yn gysylltiedig â'r cronfeydd strwythurol. Y neges gyffredinol oedd y dylai pawb gefnogi'r polisi cydlyniant er budd i bawb. Hefyd gwnaeth Romano Prodi gyflwyniad ar ddyfodol Ewrop. Awgrymodd y dylai'r Comisiwn a Phwyllgor y Rhanbarthau gydweithio'n llawer agosach nag y gwnaethant yn y gorffennol. Dywedodd John Griffiths fod angen ystyried y ffordd orau o ddefnyddio Pwyllgor y Rhanbarthau. Yr ymdeimlad oedd na chafodd ei ddefnyddio ddigon yn y gorffennol, a'i fod yn bwyllgor sy'n chwilio am rôl. Cytunwyd y byddai swyddogion yn llunio papur ar

gyfer yr wythnos ar ôl y nesaf er mwyn edrych sut i gael y defnydd gorau o'n haelodaeth ar Bwyllgor y Rhanbarthau.

**Eitem 8 ar yr Agenda: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**
**Papur: EUR 02-01(min)**

8.1 Cytunodd yr aelodau ar gofnodion y cyfarfod diwethaf gydag un mân ddiwygiad.

8.2 Holodd John Griffiths ynghylch logisteg cynnwys adroddiad ar weithgaredd Pwyllgor y Rhanbarthau o fewn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor. Cytunwyd y byddai ef ac Elin Jones yn cydweithredu ar y mater.

**Pwyntiau ar gyfer gweithredu neu ystyried ymhellach**

<u>Gweithgor ar Gydlyniant</u>
Adroddiad Interim ar y cylch gorchwyl i'w wneud i'r Pwyllgor gan y gweithgor ar gydlyniant erbyn cyfarfod 28 Mehefin.

<u>Gefeillio</u>
Swyddogion i ddosbarthu nodyn byr i'r aelodau ynglŷn â hyn.

<u>Adroddiadau ASEau</u>
Cytunodd Des Cliffordd i hwyluso adroddiad ar weithgareddau'r ASEau rhwng y pwyllgorau.

<u>Adroddiad Blynyddol</u>
Cytunodd y swyddogion i ddiffinio terminoleg gyson ar gyfer disgrifio cysylltiadau Cymru â lefelau amrywiol o fewn Sefydliadau Ewropeaidd.

<u>Siarter ar Hawliau Sylfaenol</u>

Papur gan Rose D'Sa i'w ddosbarthu i'r aelodau.

<u>Cyrff Cynrychioliadol</u>

Cytunodd y swyddogion i lunio papur yn egluro cynrychiolaeth Cymru ar Ffora Ewropeaidd amrywiol.

<u>Gohebiaeth gan y Cadeirydd</u>
Y Cadeirydd i ysgrifennu at
* Pwyllgor Busnes yn gofyn am aelodaeth o bob pwyllgor pwnc a diwygio rheolau sefydlog er mwyn caniatáu, gyda chytundeb, ystyried materion o fewn cylch gwaith un pwyllgor pwnc ac ymestyn cylch gwaith y Pwyllgor i gynnwys materion allanol

* Panel Cadeiryddion yn gofyn am benodi rapporteurs ac adroddiadau ar faterion Ewropeaidd mewn adroddiadau cynnydd.

<u>Adroddiad ar raglen waith y Comisiwn Ewropeaidd</u>
Prif Weinidog Cymru i adrodd yn ôl ynghylch rhaglen waith y Comisiwn Ewropeaidd gan nodi materion o arwyddocâd posibl sy'n codi o'r rhaglen o fewn cwmpas cyfrifoldeb pob Gweinidog Cynulliad.

<u>Cyfarfod gyda Chadeiryddion Pwyllgorau Pwnc</u>
Yr Ysgrifenyddiaeth i wahodd cadeiryddion pwyllgorau pwnc i fynychu cyfarfod bob blwyddyn.

<u>Cyfarfod ym Mrwsel</u>
Yr Ysgrifenyddiaeth i archwilio'r opsiynau ar gyfer cyfarfod ym Mrwsel.

<u>Cyflwyniad ar Ddatblygu Cynaliadwy</u>
Y swyddogion i baratoi papur ar faterion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy yn y cyd-destun Ewropeaidd ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.